**TEMPLED GRANT DYSGU PROFFESIYNOL/*PROFESSIONAL LEARNING GRANT TEMPLATE***

| | |
|---|---|
| **Ysgol/*School*** | **Dyffryn Conwy** |
| **Swm a ddyrannwyd/ *Allocated Sum*** | **£15,100** |

| | |
|---|---|
| **Amlinelliad o'r bwriadau/*Outline of intentions*** | **1) Datblygu rheolaeth ddosbarth athrawon ac ymateb i ymddygiadau heriol ychydig iawn o ddisgyblion. Blaenoriaeth yn deillio o holiaduron staff Haf 2018. Ymchwilwyd i cynghorydd profiadol, Lisa Miller sydd wedi cynnal hyfforddiant, coachio y Pennaeth Cynorthwyol, cyfarfod efo staff ac ymweld a'r ysgol ac wedi bod yn ein cynghori wrth ailddrafftio ein polisi ymddygiad gadarnhaol.**<br><br>**2) Datblygu sgiliau dysgu ac addysgu ac arweinyddiaeth drwy cynllun OLEVI. Yn ystod 2018/19 mae aelodau o UDRh, Rheolaeth Ganol Craidd ac athrawon pwnc wedi derbyn hyfforddiant OLE, OTP, ITP ac OTAP drwy gynllun OLEVI ar y cyd gyda Ysgol y Creuddyn ac Ysgol Glan Clwyd. Mae'r costau cwrs wedi eu ariannu drwy'r bartneriaeth gyda GWE fodd bynnag mae costau llanw o 30 diwrnod wedi ei ddefynddio hefyd. Yn y gorffennol bu digon o cyflenwyr dysgu gan yr ysgol i beidio achosi cost ychwanegol fodd bynnag mae cyllidebau llai yn golygu bod cost ychwanegol wedi bod yn ystod 2018/19 i hwyluso y DPP hyn.**<br><br>**3) Gwella safonau mewn pynciau penodol – TGAU/Lefel A. Costau hyfforddiant blynyddol CBAC mewn pynciau ffocws (Y Gymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth TGAU. TGAU Technoleg, Daearyddiaeth. 12 pwnc wedi cael mynediad yn ystod 2018/19.** |

| | |
|---|---|
| **Yr Effaith a'r Canlyniadau a Ddisgwylir/ *Expected Impact and Outcomes*** | **1) Disgwyliadau athrawon o'u rol a cyfrifoldebau wrth rheoli ymddygiad wedi gwella. Rheolwyr canol pwnc yn deall yn well sut allent gefnogi athrawon pwnc a modelu strategaethau positif er mwyn hyrwyddo ymddygiad da.**<br>**Lleihad yn y galwadau cymorth ar gyfer y disgyblion mwyaf heriol a cyfnodau cosb uwch ar lefel ysgol gyfan.**<br>**Staff yn fwy cyson wrth fodelu disgwyliadau a defnyddio strategaethau cymodi gyda disgyblion.**<br>**Rheolwyr Canol bugeiliol wedi datblygu sgiliau gwahanol wrth cefnogi staff eraill i reoli ymddygiad ac ymateb i ymddygiadau heriol ychydig iawn o ddisgyblion.**<br><br>**2) Mae 4 uwch rheolwr, 4 rheolwr canol wedi datblygu sgiliau arweinyddiaeth newydd a myfyrio ar strategaethau arweinyddiaeth a blaenoriaethau craidd yr ysgol drwy hyfforddiant OLE. Mae un aelod o'r UDRh wedi ei hyfforddi i fod yn hyfforddwr ar gyfer y cynllun ac wedi gweithredu ar y cyd gyda'n ysgolion partner i gynnal yr hyfforddiant i rheolwyr canol uwch. Mae hyn wedi dechrau ychwanegu at gynyddu capasiti arweinyddiaeth uwch yr ysgol. Mae 2 athro wedi mynychu hyfforddiant ITP a 2 wedi mynychu hyfforddiant OTP. Rhannwyd eu profiadau a'r hyn maent wedi ei ddysgu drwy'r rhwydwaith OTP ac yn fewnol. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu strategaethau dysgu ac addysgu newydd a hefyd datblygu sgiliau coachio fydd o gymorth wrth ddatblygu cymunedau dysgu proffesiynol o fewn yr ysgol i'r dyfodol. Mae 2 cymhorthydd wedi mynychu yr hyfforddiant ac o ganlyniad wedi datblygu adnoddau i gefnogi dysgu trawsysgol gyda ffocws ar ddatblygu sgiliau cwestiynu a herio disgyblion. Mae'r adnoddau wedi cael eu rhannu gyda holl staff bellach.**<br>**3) Nid oes deilliannau eto ond disgwylir fod cynnydd yn y canlyniadau Haf 2019 o ganlyniad i ddealltwriaeth gwell/cynyddol/cyfredol o ddisgwyliadau y prif arholwyr yn y cyrsiau penodol yn enwedig ble mae tanberfformiad wedi bod a hefyd ar gyfer gweithredu cam nesaf cyrsiau newydd.** |

**Gwerthuso/*Evaluation***

| | |
|---|---|
| **Beth sydd wedi gweithio'n dda/*What worked well*** | **Mae'r cynllun OLE wedi datblygu hyder yr unigolion sydd wedi bod yn rhan ohono a hefyd eu gallu i fyfyrio ar eu sgiliau addysgu / arweinyddiaeth ac i adnabod dulliau o fireinio rheini er budd i flaenoriaethau yr ysgol a'r cynllun HYDER. Mae hefyd wedi annog cydweithio a cyd-ddysgu mewn sefyllfaoedd oedd ddim yn bodoli yn flaenorol e.e. drwy bynciau gwahanol yn cydweithio ar lefel dosbarth / arweinyddiaeth. Mae hyn y cynnwys cyd-arsylwi a cynnig aborth ar dysgu ac addysgu, a cyd-gynllunio yn strategol er mwyn sicrhau effaith ar deilliannau disgyblion.**<br><br>**Mae y gweithgareddau yn gysylltiedig a hyrwyddo ymddygiad da wedi helpu staff i oroesi meddwl caeth am eu disgwyliadau a'u perthynas gyda disgyblion ac wedi dechrau datblygu gwdnwch mewn sefyllfaoedd mwy heriol wrth ymateb i anghenion dysgu ac ymddygiadol ychydig iawn o ddisgyblion ac adolygu arferion rheolaeth ddosbarth o fewn ac ar draws pynciau yn gyffredinol. Mae wedi galluogi symudiad pellach ymlaen tuag at system hyrwyddo ymddygiad da sydd yn rhoi sylw i gymodi a datblygu gwdnwch staff a disgyblion yn hytrach na ffocws gynyddol negyddol ar gosbi ac atebolrwydd.** |

| | |
|---|---|
| **Yr Effaith a'r Canlyniadau/ *Impact and Outcomes*** | **Gweler uchod.** |

| | |
|---|---|
| **Y Cam Nesaf/*Next stage*** | **Bydd angen cwblhau y cylch o gydweithio gyda'r arbennigydd allannol ar y polisi ymddygiad diwygiedig a cynnal hyfforddiant penodol pellach i staff gan gynnwys hyfforddiant ar strategaethau cymodi a modelu strategaethau gyda aelodau o staff newydd/sydd wedi bod ar famolaeth/sydd angen cefnogaeth bellach.**<br><br>**Bydd angen parhau i ddatblygu y cynllun OLE gyda rheolwyr canol uwch eraill a hwyluso parhad yn y cydweithio sydd wedi cychwyn o fewn yr ysgol a rhwng y 3 ysgol o fewn y rhwydweithiau OLE, OTP ac ITP. Mae hefyd angen parhau i dyfu staff yn y strategaethau a meddylfryd HYDER o fewn yr ysgol drwy'r cymunedau dysgu proffesiynol a drwy y bartneriaeth ysgol i ysgol. Y nod hefyd yw adeiladu ar y cydweithio DPP ar lefel ysgol gyfan ac adrannol drwy ddatblygu partneriaethau ysgol i ysgol o fewn cyd-destun ysgolion sydd yn dysgu (OECD) a trawsnewid hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Bydd hyn yn allweddol wrth ymateb i'n cynllun ol arolwg.**<br><br>**Bydd angen arfarnu effaith yr hyfforddiant pwnc penodol drwy ganlyniadau Haf 2019 a sicrhau bod buddsoddiad pellach yn cael ei wneud lle mae angen yn datblygu yn y data a tystiolaeth ehangach o berfformiad adrannau Haf 2019.** |